Adran Addysg Gwynedd

Cwestiynau Cyffredin

Dyma rai cwestiynau cyffredin ac atebion i rieni/gofalwyr wrth baratoi i ddanfon eu plant nôl i'r ysgol o 29 Mehefin ymlaen.

Os penderfynaf beidio ag anfon fy mhlentyn i'r ysgol, a gaf i fy nghosbi neu fy nirwyo?

Ni chaiff rhieni/gwarcheidwaid eu dirwyo na'u cosbi am beidio ag anfon eu plentyn i'r ysgol yn ystod pedair wythnos olaf y tymor.

Mae'n bosibl y bydd rhai teuluoedd yn cysgodi ac efallai na fydd eraill yn barod i ddychwelyd i'r ysgol. Mae'r cynnig yno i ddychwelyd i'r ysgol yn rhan-amser pe bai'r rhieni'n dymuno ei dderbyn.
Rydym yn parchu penderfyniad pob teulu unigol yn ystod y cyfnod 29 Mehefin i 24 Gorffennaf.

Os yr ydych wedi penderfynu nad yw eich plentyn yn mynd i fynychu'r ysgol ac yna'n penderfynu yn nes ymlaen eich bod am i'ch plentyn fynychu'r ysgol be sydd angen i chi wneud?

Bydd yn rhaid i chi roi wythnos o rybudd i'r ysgol bod eich plentyn yn dymuno dychwelyd i'r ysgol.

A oes rhaid i mi gael gwahoddiad i yrru fy mhlentyn i'r ysgol?

Oes. Yn ystod y cyfnod yma ni all plentyn ddod i'r ysgol heb gytundeb yr ysgol o flaen llaw.

Oes yna ddarpariaeth ar gyfer pob blwyddyn ysgol?

Nag oes. Nid yw'r awdurdod lleol yn disgwyl i ysgolion gynnig darpariaeth ar gyfer plant oed meithrin, na disgyblion Blwyddyn 11 ac 13.

Beth fydd y sefyllfa ym mis Medi?

Nid yw'n glir eto beth fydd y sefyllfa ym mis Medi. Bydd yr ysgol yn eich diweddaru.

Beth fydd angen i'm plentyn ddod gyda nhw i'r ysgol?

Bydd angen i'ch plentyn ddod â'r canlynol:

- Eu pecyn bwyd eu hunain;
- Eu potel ddŵr eu hunain;
- Eu cås pensiliau eu hunain.

Ni fyddant yn gallu rhannu eu hadnoddau gyda phlant eraill na'r staff.

Beth ddylwn i ei wneud os yw fy mhlentyn wedi derbyn llythyr i gysgodi?

Ni ddylai'r plentyn fynychu'r ysgol.

Beth ddylwn i ei wneud os yw fy mhlentyn yn byw gydag aelod o'r teulu sydd wedi derbyn llythyr i gysgodi?

Fe all eich plentyn fynd i'r ysgol ond mae'n allweddol bwysig eich bod yn trafod y mater gyda'r ysgol er mwyn iddynt ystyried mesurau lliniaru risg.

Beth ddylwn i ei wneud os yw fy mhlentyn a chyflwr meddygol sydd yn ei wneud yn fregus?
Fe all eich plentyn fynd i'r ysgol ond mae'n allweddol bwysig eich bod yn trafod y mater gyda'r ysgol er mwyn iddynt ystyried mesurau lliniaru risg.

Beth ddylwn i ei wneud os yw fy mhlentyn yn byw gyda rhywun sydd â chyflwr meddygol sydd yn ei wneud yn fregus?
Fe all eich plentyn fynd i'r ysgol ond mae'n allweddol bwysig eich bod yn trafod y mater gyda'r ysgol er mwyn iddynt ystyried mesurau lliniaru risg.

A fydd angen cyfarpar diogelu personol ar fy mhlentyn i fynd i'r ysgol?

Mae hi'n bwysig cofio bod tystiolaeth gref sy'n dangos mai cadw pellter corfforol, hylendid dwylo a hylendid resbiradol (dal peswch neu disian mewn hances bapur a chuddio'r geg a'r trwyn gyda phenelin neu lawes) yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o atal y coronafeirws rhag lledaenu.

Mae hylendid dwylo yn hollbwysig cyn ac ar ôl bob cyswllt uniongyrchol gyda phlentyn neu berson ifanc, ac ar ôl glanhau cyfarpar a'r amgylchedd.

Felly nid oes angen defnyddio cyfarpar diogelu personol wrth gynnal gweithgareddau addysgol arferol mewn ystafell ddosbarth/lleoliadau ysgol.

Addysg

Sut fath o addysg fydd ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd yn ei chynnig?

Mae'r awdurdod lleol yn deall y bydd angen i ysgolion gynnig profiadau gwahanol i ddysgwyr sy'n dychwelyd i'r ysgol.

Dylid defnyddio tymor yr haf i roi cyfleoedd i ddysgwyr a staff ail-addasu ac ymgyfarwyddo â bod yng nghwmni eu cyfoedion eto a bod yn amgylchedd yr ysgol.

Dylai'r prif ffocws fod ar hyrwyddo hunan les dysgwyr a staff. Mae'r awdurdod lleol yn argymell yn gryf y dylai ysgolion ganolbwyntio ar iechyd a lles emosiynol dros weddill tymor yr haf. Mae'r Gwasanaeth ADY a Ch yn darparu cyngor ar gyfer hyn, sydd ar gael ar wefan y Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn trefnu hyfforddiant gan 'Trauma Informed Schools' ar gyfer paratoi at integreiddio yn ôl.

A fydd yr ysgol yn parhau i addysgu plant yn y grwpiau blwyddyn sydd i fod i ddychwelyd i'r ysgol ond sy'n cael eu cadw gartref gan eu rhieni ar sail iechyd/diogelwch?

Byddant. Bydd yr athrawon yn paratoi gwaith ar gyfer plant sydd ddim yn dychwelyd i'r ysgol.

A fydd disgyblion a fydd yn symud i ysgol arall ym mis Medi yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau pontio?

Mae'r awdurdod wedi gofyn i bob ysgol ystyried cynllunio cefnogaeth bontio pwrpasol i gynorthwyo dysgwyr sydd ar fin symud i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Glanhau

Sut y bydd yr ysgol yn cael ei glanhau wedi iddi ail agor?

Bydd yr ysgol yn cael ei glanhau yn ystod y dydd gan lanhawyr a fydd wedi eu hyfforddi'n addas. Bydd y glanhawyr yn rhoi sylw penodol i fannau lle bo'r plant a'r staff yn eu cyffwrdd yn rheolaidd gan ddilyn protocolau glanhau diogel bob amser.

Bydd staff glanhau yn dechrau nôl ar eu dyletswyddau glanhau yn yr wythnos yn cychwyn 15fed o Fehefin.

Bydd yr awdurdod yn darparu adnoddau ychwanegol i'r ysgolion mewn ymateb i'r gofynion glanhau ychwanegol.

A ydym yn disgwyl i ddisgyblion lanhau eu gofod gweithio?

Mae disgwyl i'r disgyblion gymryd camau rhesymol i sicrhau bod yr amgylchedd gwaith yn cael ei gadw mor lân â phosibl. Pan fo'n briodol (ac yn ôl eu hoed/datblygiad), gellir annog y disgyblion i lanhau eu mannau personol eu hunain, er enghraifft drwy roi 'wipes' iddynt eu defnyddio yn eu rhannau hwy o'r ystafell.

Bydd y 'wipes'/offer glanhau addas yn cael ei ddarparu i'r dosbarthiadau ynghyd â chanllawiau byr.

Toiledau

Pa mor aml fydd toiledau'r ysgol yn cael ei glanhau?

Bydd y toiledau'n cael eu glanhau wedi amser egwyl a chinio ac ar ddiwedd pob dydd.

Sut y dylid rheoli'r defnydd o doiledau?

Mae'r awdurdod lleol yn argymell bod ysgolion yn dilyn y protocolau a ganlyn, os oes modd:

- Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r toiledau un ar y tro.
- Bydd yr ysgol yn gofalu bod dŵr a sebon hylif ar gael bob amser, ym mhob toiled/ystafell ymolchi i ddisgyblion a staff.

Pellter Cymdeithasol

Sut y bydd yr ysgol yn gwneud yn siŵr bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr yn yr ystafell ddosbarth, mannau cylchdroi, toiledau, yr iard a lleoedd tebyg?

Bydd pob ysgol unigol yn rhoi sylw penodol i bellter cymdeithasol. Mae'r awdurdod wedi paratoi fframwaith asesu risg cyffredinol i ysgolion ei addasu'n ôl eu hamgylchiadau eu hunain, gan gydnabod bod pob ysgol yn wahanol.

Fel rhan o'r broses asesu risg, bydd angen i'r ysgol benderfynu faint o ddisgyblion y gellir eu cynnwys ar y safle'n ddiogel, gan ystyried faint o le sydd ar gael i addysgu'r plant ac i ganiatáu iddynt symud yn y coridorau, a faint o le sydd yn y toiledau ac ati.

Bydd angen i bob ysgol unigol benderfynu ar yr hyn sy'n briodol, ar sail cyngor yr awdurdod lleol, a chan roi sylw priodol i ganllawiau manwl Llywodraeth Cymru.

Fe fydd sefyllfa pob ysgol yn wahanol oherwydd eu hamgylchiadau unigryw.

Pa fesurau fydd mewn lle i ddiogelu fy mhlentyn?

Mae nifer o fesurau mewn lle i ddiogelu eich plentyn. Dyma rai o'r mesurau:

- Bydd gan bob ysgol ei hystafell ynysu benodol, pe bai plentyn neu aelod o staff yn dechrau teimlo'n sâl yn ystod y dydd
- Mae pob ysgol wedi cyfrifo beth yw uchafswm nifer y disgyblion y gellir eu cynnwys mewn ystafell ddosbarth ar yr un pryd, os glynir wrth bellter cymdeithasol o 2 fetr
- Y nifer uchaf posibl o blant y gall ysgol ei dderbyn ar unrhyw ddiwrnod penodol yw traean o gapasiti'r ysgol h.y. os oes gan ysgol gapasiti o 60, ni all mwy nag 20 o blant fynychu'r ysgol ar unrhyw ddiwrnod
- Efallai na fydd pawb yn cael amserau egwyl a chinio ar yr un pryd
- Bydd ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd cyffredin yn cael eu sychu'n lân yn rheolaidd
- Bydd ysgolion yn cael eu glanhau'n drylwyr bob nos
- Bydd arwyddion clir o amgylch yr ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd golchi dwylo, hylendid a chadw pellter cymdeithasol

Cofiwch fod safle pob ysgol yn wahanol a bydd gan bob ysgol fesurau gwahanol ar waith e.e. bydd lleoliad man gollwng plant yn amrywio o ysgol i ysgol/ bydd gan rai ysgolion systemau unffordd a.y.y b.

Bydd gan bob ysgol ei chynllun ailagor graddol ei hun; bydd pob ysgol wedi cynnal cyfarfodydd safle a'r rheiny wedi eu cydnabod gan yr Awdurdod Lleol. Yn ogystal, bydd gan bob ysgol ei Hasesiad Risg ei hun.

Faint o ddisgyblion ddylai fod mewn un ystafell ddosbarth?

Mae'n anodd i'r awdurdod lleol roi canllawiau pendant gan fod ystafelloedd dosbarth yn amrywio cymaint o ran maint a siâp.

Yr ysgolion eu hunain sydd i benderfynu gan ddefnyddio canllaw pellter cymdeithasol 2m.

Pwy sydd yn gwneud yn siŵr fod asesiadau risg yn addas ac o ansawdd?

Bydd tîm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ac Adran Addysg Cyngor Gwynedd yn gwirio ansawdd yr asesiadau risg.

Os nad wyf yn weithiwr allweddol a fydd modd i fy mhlentyn fynd i glybiau cyn/ar ôl ysgol?

Na fydd. Mae'r awdurdod lleol yn argymell bod clybiau cyn/ar ôl ysgol yn dod i ben am y tro.

Cyffredinol

A oes rhaid i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol?

Fe fydd hyn yn amrywio o ysgol i ysgol ond yn gyffredinol caiff y disgyblion eu hannog i wisgo dillad ac esgidiau priodol sy'n hawdd eu golchi/glanhau. Gall hyn fod yn wisg ysgol.

A fydd trefniadau gwahanol ar ddechrau a diwedd y dydd wrth i blant fynd i mewn i adeilad yr ysgol?

Bydd. Bydd yr ysgol wedi marcio'r mannau aros yn glir (e.e. drwy ddefnyddio arwyddion, 'bollards' neu dâp) i ddiogelu disgyblion sy'n aros i fynd i mewn i'r adeilad.

Bydd y marciau'n dangos sut y gall y disgyblion a'r rhieni/gofalwyr gadw pellter cymdeithasol diogel.

A oes cyfyngiad ar bwy sydd yn cael hebrwng plentyn i'r ysgol / casglu plentyn o'r ysgol?

Oes, dim ond un rhiant/gwarcheidwad.

Pe byddwn i'n dymuno trafod mater penodol gyda'r ysgol a oes modd i mi gyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda staff yr ysgol?

Na fydd. Mae'r awdurdod lleol yn argymell y dylid cysylltu gyda'r ysgol ar y ffôn yn y lle cyntaf. Os byddwch yn dymuno cyfarfod pellach yr ydym yn awgrymu y dylai hwn fod yn rhith-gyfarfod am y tro.

Sut y dylai ysgolion reoli amseroedd egwyl?

Bydd staff ar gael i oruchwylio eich plentyn bob amser egwyl a chinio. Bydd disgwyl i blant ymbellhau'n gymdeithasol.

Bydd hylif diheintio dwylo ar gael ym mhob mynedfa i wneud yn siŵr bod disgyblion yn gallu golchi eu dwylo wrth iddynt adael adeilad yr ysgol a mynd yn ôl i mewn.

Bydd offer ar yr iard chwarae yn cael ei lanhau cyn i grwpiau gwahanol ei ddefnyddio.

A fydd athrawon yn marcio llyfrau fy mhlentyn?

Mae'r awdurdod lleol yn cynghori staff i beidio â marcio llyfrau'r disgyblion yn ystod y cyfnod yma.

Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli ei bod yn bwysig rhoi adborth ystyrlon i'r disgyblion. Gan hynny, caiff ysgolion eu hannog i ddefnyddio dulliau amrywiol (e.e. gofyn i'r disgyblion farcio'u gwaith eu hunain, rhoi adborth ar lafar, a sylwadau digidol/ar-lein) i roi adborth am waith y disgyblion.

Beth os bydd fy mhlentyn angen cymorth cyntaf yn ystod y dydd?

Fe fydd staff yr ysgol yn darparu cymorth cyntaf yn y drefn arferol. Fodd bynnag byddant yn gwisgo offer amddiffyn pwrpasol.

Mae canllaw penodol wedi ei rannu gyda phob ysgol eisoes o ran Cymorth Cyntaf

Cinio Ysgol

A fydd cinio ysgol ar gael?

Na fydd. Mae gofyn i bob plentyn ddod a bocs bwyd i'r ysgol am weddill y tymor addysgol hwn.

A oes rheolau o ran beth a ddylid ei roi yn pecyn bwyd?

Oes. Dylid paratoi pecyn bwyd lle nad oes angen i aelod o staff gynorthwyo'r plant i'w agor nac ychwaith helpu i agor ei gynnwys. Dylid osgoi pacedi plastic lle na all plant, yn enwedig plant ifanc eu hagor.

Yn unol â chanllawiau ysgolion yn gyffredinol dylid ceisio paratoi bocs bwyd maethlon gan osgoi cynhwysion all arwain i blant dagu megis grawnwin.

A fydd clybiau brecwast?

Na fydd. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr awdurdod lleol gynlluniau i ailddechrau'r clybiau brecwast.

Bydd yr awdurdod lleol yn adolygu'r sefyllfa dros wyliau'r haf a chewch ragor o wybodaeth bryd hynny.

A fydd plant cymwys am ginio am ddim yn parhau i gael taliadau uniongyrchol rhwng 29 Mehefin a 24 Gorffennaf?

Byddant. Bydd disgwyl iddynt ddod a phecyn bwyd i'r ysgol yr un fath a bob plentyn arall.

A fydd yr awdurdod lleol yn parhau i ddarparu cinio i ddisgyblion sy'n cael gofal plant ar ôl 29 Mehefin?

Na fydd, mae'r trefniant yma'n dod i ben. Bydd angen i blant sydd yn mynychu'r gofal ddod a phecyn bwyd efo nhw.

Gofal i blant Gweithwyr Allweddol

Pan fydd ysgolion yn ailagor, a fydd y ddarpariaeth ofal i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol yn parhau?

Bydd.

Bydd y ddarpariaeth yn cychwyn am 8y.b. ac yn gorffen am 5y.h.

Sut bydd yr ysgolion yn gwybod pwy sydd yn dymuno cael gofal plant?

Bydd yr ysgolion yn cysylltu efo chi.

A fydd yn rhaid i staff ysgol ddarparu addysg a gofal plant?

Bydd. Byddant yn blaenoriaethu gofal i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus yn lle cyntaf ond wedi hynny yn darparu addysg ar y safle ac addysgu o bell.

A fydd y ddarpariaeth ofal i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol ar agor dros yr haf?

Bydd . Fodd bynnag ni fydd disgwyl i staff ysgolion ddarparu gofal i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol dros wyliau'r haf. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw drefniadau pendant mewn lle.

Beth os yw'r nifer plant gweithwyr allweddol sydd angen gofal yn fwy na 1/3 o boblogaeth yr ysgol?

Os yw'r nifer plant gweithiwyr allweddol yn fwy na'r nifer o blant a ellir eu cynnwys yn ddiogel yna bydd yr ysgol yn cynnig gofal i bob plentyn ond am nifer llai o ddyddiau.

Cludiant

Sut y bydd dysgwyr yn teithio i'r ysgol pan fyddant yn dychwelyd?

Disgwylir i rieni gludo/hebrwng eu plant i'r ysgol yn lle cyntaf ond os nad yw hyn yn bosibl bydd dysgwyr sy'n gymwys i gael cludiant ysgol yn parhau i gael y gwasanaeth hwnnw. Os bydd y galw am gludiant yn uwch na'r capasiti, rhoddir blaenoriaeth i'r disgyblion na allant fod yn bresennol hebddo.

Os bydd cludiant wedi ei drefnu ar gyfer y disgybl, bydd yn derbyn sedd wedi ei glustnodi ar ei gyfer ar y cludiant.

Bydd yr awdurdod lleol yn darparu taflen gwestiynau ac ateb penodol ar gludiant i ysgolion eu hanfon at rieni/gofalwyr a dysgwyr.

Beth fydd y trefniadau ar gyfer disgyblion sy'n aros am fysiau i'w cludo i'r ysgol?

Ni fydd yr awdurdod lleol (na'r darparwyr cludiant) yn gallu marcio'r safleoedd bws ac ni fyddant yn gallu eu monitro.

Mae'r awdurdod wedi addasu'r cod ymddygiad i adlewyrchu y byddwn yn disgwyl i ddisgyblion o wahanol aelwydydd aros 2m ar wahân wrth yr arhosfan bysiau.

A fydd hebryngwyr yn teithio gyda'r disgyblion?

Yn gyffredinol, ni fyddant.

Fodd bynnag, bydd hebryngwyr ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael blaenoriaeth gan ddibynnu ar gytundeb rhwng yr ysgol, y rhieni a gweithredwyr cludiant.

Beth os nad yw disgyblion yn cadw at y rheolau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol ar gludiant ysgol?

Mi fydd pob disgybl yn derbyn sedd benodol i eistedd ar y cludiant fydd wedi ei gymeradwyo o flaen llaw.

Bydd rhieni plant sydd yn methu a chadw at y rheolau yn derbyn llythyr rhybudd ac os byddant yn parhau i anufuddhau i unrhyw gyfarwyddiadau byddant yn wynebu gwaharddiad o'r cludiant. O dan yr amgylchiadau hyn, cyfrifoldeb y rhieni fyddai trefnu sut y bydd eu plentyn yn mynd i'r ysgol

Faint o ddisgyblion fydd yn cael teithio ar gludiant ysgol?

Ar hyn o bryd, rydym yn rhagweld y bydd **tua**:

- 12 disgybl ar fws 52/54 sedd;
- 7 disgybl ar fws 32 sedd;
- 6 disgybl ar fws 28 sedd;
- 1 disgybl ar fws 8 sedd

A gaiff y cludiant ei lanhau'n rheolaidd?

Bydd cludiant i ac o'r ysgol yn cael ei lanhau cyn casglu'r disgyblion

A fydd angen i ddisgyblion o'r un aelwyd eistedd gyda'i gilydd ar fws ysgol?

Na fydd.

Er mwyn ein helpu i gynllunio ar gyfer y ymbellhau cymdeithasol rydym wedi sicrhau bod disgyblion yn eistedd ar ben eu hunain ar y sedd sydd agosaf at y ffenest. Ar y daith yn ôl bydd disgyblion yn cael eu neilltuo (2m ar wahân) ac yn llenwi'r bws o'r cefn ymlaen.

A fydd plant eraill yn mynd heibio fy mhlentyn yn barhaus pan fyddant yn mynd ar y bws ac oddi arno?

Na fydd.

Bydd cynllun eistedd clir yn ei le sy'n sicrhau y bydd y disgybl cyntaf a gaiff ei godi yn y bore yn llenwi o'r cefn. Bydd hyn yn sicrhau nad yw disgyblion yn mynd heibio ei gilydd ac yn ymdrech i sicrhau'r ymbellhau cymdeithasol.

A fydd modd diheintio dwylo ar y bws i'r plant eu defnyddio pan fyddant yn cyrraedd?

Bydd. Bydd y gweithredwyr bws yn trefnu hyn.

A fydd yr un gyrrwr ar yr un bws bob tro?

Lle bo hynny'n ymarferol bydd yr un gyrrwr ar yr un bws yn cael ei ddefnyddio.

A fydd modd i blant barhau i deithio i'r ysgol ar fws cyhoeddus?

Bydd. Byddwn yn gofyn i'r gweithredwyr flaenoriaethu plant ar amser cludiant ysgol arferol.

A fydd plant yn parhau i dderbyn cludiant drwy'r cynllun seddau gweigion?

Ni fyddwn yn gweithredu'r cynllun seddau gweigion ar hyn o bryd gan mai dim ond nifer fechan o blant all deithio ar ein cludiant oherwydd rheolau ymbellhau cymdeithasol.

Beth os bydd plentyn yn mynd yn sâl yn ystod y diwrnod ysgol?

Bydd disgwyl i rieni gasglu eu plentyn o'r ysgol, ni fyddwn yn darparu cludiant.

Os bydd gan blentyn 'Symptomau COVID-19' a fyddan nhw'n cael eu cludo o hyd?

Na fydd.

Mae'n hanfodol fod rhieni yn sicrhau nad yw plant yn teithio os oes ganddynt unrhyw un o'r symptomau COVID. Os bydd gweithredwr cludiant yn ymwybodol o symptom cyn teithio, caiff y cludiant ei wrthod.